

# Addysg mewn lleoliadau gofal iechyd yng Nghymru:

# Beth wnaethon ni ddarganfod

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales




Widgit Symbols © Widgit Software 2002 - 2019 **www.widgit.com**

# Rhestr geiriau

| | |
|---|---|
|  Cyngor | Mae cynghorau yn gofalu am lawer o bethau gwahanol yn eich ardal leol. Un o'r pethau maen nhw'n ei wneud yw sicrhau bod pob plentyn yn derbyn yr addysg gorau iddyn nhw. |
|  lleoliadau gofal iechyd | Pan fyddwn yn sôn am leoliadau gofal iechyd rydym yn sôn am leoedd fel ysbytai, hosbisau ac unedau iechyd meddwl. |




Widgit Symbols © Widgit Software 2002 - 2019 www.widgit.com

# Comisiynydd Plant Cymru

| | |
|---|---|
|  | Rocio Cifuentes ydy Comisiynydd Plant Cymru. |
|  | Gwaith y Comisiynydd ydy gwneud yn siŵr bod pob plentyn a pherson ifanc yng Nghmru yn derbyn eu hawliau plant. |
|  | Hawliau plant yw'r pethau sydd eu hangen arnoch i dyfu i fyny yn teimlo'n hapus, yn iach ac yn ddiogel. |
|   | Mae gan bob plentyn yr hawl i addysg.<br><br>Roedd Rocio a'i thîm eisiau darganfod os oedd plant mewn lleoliadau gofal iechyd yn derbyn eu hawl i addysg. |
|  | Mae Rocio a'i thîm wedi bod yn siarad â phlant a phobl ifanc, eu gofalwyr a gweithwyr proffesiynol am addysg mewn lleoliadau gofal iechyd. |

Widgit Symbols © Widgit Software 2002 - 2019 **www.widgit.com**




# Beth wnaethon ni ddarganfod

| | |
|---|---|
|  | Dywedodd plant wrthym fod dysgu pan fyddant mewn lleoliad gofal iechyd yn eu helpu. Maent yn mwynhau dysgu a dywedon nhw y gall eu helpu i anghofio am eu salwch. |
|  | Ond fe wnaethon ni ddarganfod bod rhai plant yn cael llawer o gyfleoedd dysgu a rhai ddim yn cael llawer o gwbwl. |
| 16+  | Fe wnaethom ddarganfod y gall rhai plant golli mas ar ddysgu mwy nag eraill. Weithiau mae plant sy'n hŷn nag 16, plant ag anghenion dysgu ychwanegol, a phlant sy'n dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn derbyn llai o gefnogaeth. |
|   | Fe wnaethom hefyd darganfod y gall y cyfleoedd sydd gan blant i ddysgu ddibynnu ar ble maent yn byw yng Nghymru. Mae hyn oherwydd gall cynghorau ledled Cymru gwneud pethau'n wahanol i'w gilydd. |

Widgit Symbols © Widgit Software 2002 - 2019 **www.widgit.com**

# Pethau rydyn ni eisiau i newid

Dyma beth rydym ni am i Lywodraeth Cymru ei wneud i wella dysgu mewn lleoliadau iechyd.

| | |
|---|---|
|  | Os yw plant yn derbyn triniaeth am rheswm meddygol, dylai Llywodraeth Cymru wneud yn siŵr eu bod yn cael addysg llawn amser, os dyna sydd orau iddynt. |
|  | Dylid gofyn i blant am eu barn ar yr addysg y maent yn ei derbyn. Dylai hyn gael ei wneud gan berson arweiniol ym mhob cyngor a dylid ei wneud yn aml. |
|  | Dylai Llywodraeth Cymru wneud yn siŵr bod plant sydd mewn gwahanol rannau o Gymru derbyn yr un cyfleoedd i ddysgu pan fyddant mewn lleoliadau gofal iechyd. |
| Llywodraeth Cymru Welsh Government | Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod plant sydd fwyaf tebygol o golli addysg mewn lleoliad gofal iechyd deryn yr addysg sydd ei angen arnynt. |

Widgit Symbols © Widgit Software 2002 - 2019 **www.widgit.com**